



Tîm yr Ardoll Ymwelwyr
Yr Is-adran Strategaeth Trethi a Chysylltiadau Rhynglywodraethol
Llywodraeth Cymru

YmgynghoriadArdollYmwelwyr@llyw.cymru

13 Rhagfyr 2022

Annwyl Syr/Fadam,

Ymgynghoriad: Ardoll ymwelwyr dewisol i awdurdodau lleol

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Rydym yn gwneud hynny oherwydd ein dymuniad i weld camau yn cael eu cymryd i gryfhau ein cymunedau Cymraeg, gan gynnwys y rheiny sy'n gyrchfannau twristiaeth. Cefnogwn fwriad Llywodraeth Cymru i gynnig sylfaen decach ar gyfer ariannu gwasanaethau a seilwaith lleol rhwng trigolion ac ymwelwyr. Bydd ein sylwadau yn canolbwyntio ar oblygiadau'r ardoll arfaethedig ar gyfer y Gymraeg.

Yn ei strategaeth *Cymraeg 2050* mae'r Llywodraeth yn trafod pwysigrwydd cymunedau â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Noda fod nifer o ohonynt mewn ardaloedd sy'n "ddibynnol i raddau helaeth ar y diwydiant amaeth, y diwydiant bwyd a thwristiaeth". Mae'n cydnabod, "Ceir yn yr ardaloedd hyn hefyd bocedi o amddifadedd a thlodi gwledig, a chyflogau cyfartalog sydd ymhlith yr isaf yn y Deyrnas Unedig".

Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol Rhannol a gyhoeddodd y Llywodraeth yn rhan o'r ymgynghoriad, gwneir cysylltiad rhwng cyflwyno'r ardoll a Thema 3 *Cymraeg 2050*, sef 'Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun'. Eglura'r asesiad effaith y gallai'r cyllid a godai'r ardoll "helpu i greu a chynnal amodau ffafriol i'r Gymraeg" gan y gellid ei

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



ddefnyddio “i gefnogi’r buddiannau y mae twristiaeth yn eu cynnig i ddiwylliant Cymru”. Nodir bod yr “economi ymwelwyr yn cynnig cyfle i bobl ifanc sy’n siarad Cymraeg weithio yn eu cymunedau, ac yn cynnig cyfle i ymwelwyr ddysgu am ddiwylliant, cerddoriaeth a’r Gymraeg a’u mwynhau”. O ganlyniad, yn ôl yr asesiad effaith, gallai’r ardoll “gefnogi’r diwydiant twristiaeth a chyfleoedd cyflogaeth neu fentrau ymhlith cymunedau Cymraeg eu hiaith”.

Cytunwn y dylid cefnogi cyfleoedd cyflogaeth a mentrau mewn cymunedau Cymraeg. Fel y nodir dan Thema 3 *Cymraeg 2050*, “Mae’r economi’n hanfodol er mwyn creu’r amodau cymdeithasol priodol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i’r cymunedau hynny”. Gosodir Nod 9 dan yr un thema, “Cymuned a’r economi: cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg”. Galwn ar y Llywodraeth i sicrhau y byddai cyllid yr ardoll yn cael ei gasglu a’i ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol i ddod â budd economaidd i gymunedau Cymraeg, gan gyfrannu at greu’r swyddi da y mae *Cymraeg 2050* yn adnabod sy’n hanfodol. Yn benodol, dylid sicrhau cyfleoedd cyflogaeth sy’n gofyn am sgiliau Cymraeg, er mwyn atgyfnerthu’r budd ieithyddol y gallai’r ardoll ei greu. Noda *Cymraeg 2050* y gallai’r Gymraeg fod yn “elfen annatod” o’r ddarpariaeth dwristiaeth. Dylai’r Gymraeg fod yn elfen annatod o unrhyw gynlluniau ar gyfer defnyddio cyllid yr ardoll arfaethedig.

Rhybuddia’r asesiad effaith bod “potensial ar gyfer effeithiau andwyol os bydd y gost ychwanegol sy’n gysylltiedig ag ardoll yn wrthanogaeth i ymwelwyr fynd ar ymweliadau addysgol drwy gyfrwng y Gymraeg”. Mae’n cydnabod ar y llaw arall bod “potensial hefyd ar gyfer effeithiau cadarnhaol ar yr ymweliadau hyn os caiff yr arian ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i gefnogi’r sefydliadau hyn”. Cefnogwn yr egwyddor o ddefnyddio cyllid yr ardoll i gefnogi sefydliadau sy’n darparu gwasanaethau addysgol cyfrwng Cymraeg.

Mae cryfhau ein cymunedau Cymraeg yn hollbwysig er mwyn sicrhau hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol. Trwy ddefnyddio cyllid yr ardoll i gymryd camau penodol i gefnogi’r cymunedau hyn a’r iaith, gellid cyfrannu at yr ymdrech i gyrraedd targedau *Cymraeg 2050*, sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050 a chynyddu

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygybraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg i 20 y cant.

Rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau hyn o ddefnydd i chi wrth i chi ystyried yr ardoll ymwelwyr arfaethedig.

Yr eiddoch yn gywir,

Gwenith Price

Gwenith Price
Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales
